Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ton Tiddlywinks

**25 Gelli Road**
**Ton Pentre**
**Rhondda**
**RhCT**
**CF41 7LR**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Ton Tiddlywinks

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Ton Tiddlywinks |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Sara Phythian |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Dd/b |
| Person â gofal | Amy Bates-Moss |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Ystod oedran y plant | 2-4 |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 11 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 11 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener, 8:30 – 17:00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | |
| Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg ac nid yw'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg na'i diwylliant. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 4 Gorffennaf 2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Arolygiad cyntaf |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 19/03/2024 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Digonol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Digonol** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod plant yn cael cyfnodau estynedig o chwarae di-dor i ymgolli mewn gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt

A2 Gwella'r cyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau digidol

A3 Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso yn nodi'r holl feysydd i'w gwella yn glir

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn hapus ac yn mwynhau eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn derbyn gofal caredig a phriodol sy'n cefnogi eu lles yn effeithiol. Mae bron pob un o'r plant yn symud yn hyderus rhwng ardaloedd a gweithgareddau ac yn dewis teganau ac adnoddau sydd o ddiddordeb iddynt. Mae llawer o blant yn cyfathrebu'n hyderus gan fynegi eu hunain ar lafar a thrwy gyfathrebu dieiriau, gan wybod y bydd ymarferwyr yn ymateb i'w ffafriaethau yn ystod gweithgareddau yn barchus.

Mae bron pob un o'r plant yn mynd i mewn i'r lleoliad yn hapus ac yn cael eu cyfarch yn wresog gan ymarferwyr. Maent yn ymdopi'n dda â gwahanu wedi iddynt gyrraedd ac mae'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol yn derbyn gofal caredig ac anogol. Maent yn datblygu bondiau cryf o hoffter ac ymlyniad gydag ymarferwyr ac yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae gyda'i gilydd. Mae llawer o blant yn gyfarwydd ag arferion y diwrnod. Er enghraifft, maent yn rhoi eu heiddo o'r neilltu yn yr ystafell gotiau ac yn cofio'r camau i frwsio'u dannedd yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando ar gyfarwyddiadau yn dda. Maent yn ymddwyn yn briodol ac yn ymateb yn gadarnhaol i anogaeth gan ymarferwyr, sy'n eu helpu i ddatblygu eu hyder a'u hunan-barch. Mae'r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac yn dechrau rhannu, cymryd eu tro, a derbyn cymorth gan ymarferwyr pan fyddant yn gweld y broses hon yn anodd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos amynedd a dealltwriaeth tuag at ei gilydd, er enghraifft wrth aros eu tro amser byrbryd.

Mae bron pob un o'r plant yn egnïol ac wedi'u cymell yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn archwilio'r amgylchedd a'r gweithgareddau a'r adnoddau a gynigir iddynt. Cânt gyfleoedd gwerthchweil i ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau chwarae dan arweiniad oedolyn a gweithgareddau chwarae rhydd lle maent yn arwain ac yn ffurfio'u chwarae eu hunain. Mae llawer o blant yn dangos ffocws ac ymgysylltiad cynaledig yn eu chwarae a'u dysgu, yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Er enghraifft, maent yn canolbwyntio'n dda ac yn cymryd gofal addas wrth ddefnyddio cyllyll i dorri ffrwythau yn eu hanner. Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau annibynnol yn dda. Er enghraifft, maent yn golchi eu dwylo ac yn gweini diodydd a bwyd amser byrbryd yn annibynnol. Mae bron pob un o'r plant yn dechrau defnyddio a mynd i'r toiledau gyda graddau amrywiol o gymorth.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae llawer o blant yn hapus a chwilfrydig ac yn barod i ymgymryd â chyfleoedd dysgu sydd ar gael iddynt. Maent yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn unigol ac yn mwynhau dilyn eu diddordebau a'u cyfareddion eu hunain. Er enghraifft, maent yn cymysgu mwd a dŵr i archwilio gweadau newydd yn yr hambwrdd dŵr yn yr awyr agored yn frwdfrydig.

Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau cyfathrebu yn effeithiol. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau a chwestiynau ac yn ymateb iddynt â geiriau ac ymadroddion syml ac amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu dieiriau, yn dda. Mae llawer o blant yn sgwrsio â'u ffrindiau wrth iddynt chwarae ac yn mwynhau gwrando ar rigymau a chaneuon ac yn ymuno â symudiadau yn briodol. Mae llawer o blant yn mwynhau edrych ar lyfrau a chlywed storïau'n cael eu darllen ar goedd. Maent yn arbrofi â gweithgareddau creu marciau yn effeithiol, fel tynnu llun ar glipfyrddau, peintio a defnyddio sialciau ar fyrddau mawr.

Mae llawer o blant yn ymateb i gyfarchion a chyfarwyddiadau syml yn Gymraeg yn ystod eu chwarae. Mae ychydig o blant yn enwi lliwiau ac yn ymuno â geiriau ailadroddus mewn rhigymau cyfarwydd yn ystod amser cylch yn frwdfrydig.

Mae gan lawer o blant ddiddordeb mewn rhifau ac yn cyfrif i dri yn ddibynadwy. Er enghraifft, maent yn cyfrif llysiau yn y gegin chwarae rôl pan fyddant yn gwneud cawl yn frwdfrydig. Maent yn archwilio siâp digidau, gan ddilyn siâp mowldiau rhif â'u bysedd wrth chwarae â thoes yn hyderus. Mae llawer o blant yn mwynhau arbrofi ag offer mathemategol, fel defnyddio clorian bwyso i ddod o hyd i ddarnau o bren trwm ac ysgafn. Maent yn dechrau adnabod ychydig o siapiau fel cylchoedd a thrionglau ac yn paru siapiau pren i gardiau rhif gyda chymorth. Mae llawer o blant yn mwynhau defnyddio llechen gyfrifiadurol fawr i chwarae gemau sy'n cefnogi eu medrau iaith a'u medrau mathemategol yn fedrus. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw medrau digidol plant wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gorfforol egnïol. Maent yn reidio beiciau ac yn dod o hyd i'r ffordd trwy dwneli ac yn teithio dros drawstiau balans â chywirdeb a rheolaeth. Maent yn defnyddio amrywiaeth eang o offer bach yn hyderus. Er enghraifft, maent yn torri llysiau â chyllyll i wneud cawl ac yn stwnsio tatws i ymchwilio i'w priodoleddau.

Mae llawer o blant yn datrys problemau wrth iddynt ddigwydd yn naturiol pan fyddant yn chwarae ac yn archwilio. Er enghraifft, maent yn dod i wybod beth yw'r ffyrdd gorau o gario blociau pren i godi adeiladau yn yr ardd.

Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau creadigol yn briodol. Er enghraifft, maent yn archwilio sut mae offerynnau cerdd yn gwneud synau ac yn gwneud lluniau gan ddefnyddio paent a sialciau. Maent yn mwynhau tyfu a chynaeafu amrywiaeth o ffrwythau, blodau a llysiau yn rhandir y lleoliad. Mae hyn yn hyrwyddo ymdeimlad o ryfeddod am y byd naturiol o'u cwmpas yn effeithiol.

**Gofal a datblygiad:  Digonol**

Mae ymarferwyr yn deall sut i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn cynorthwyo ac annog plant i ymgymryd â chwarae corfforol yn yr awyr agored ac yn darparu dewisiadau byrbryd iach. Maent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'n gyson ac yn hyderus yn eu rolau a'u cyfrifoldebau. Er enghraifft, maent yn dilyn y polisi meddyginiaeth yn fedrus, yn cofnodi digwyddiadau a damweiniau yn briodol, gan ddiwallu anghenion plant ag alergeddau yn ddiogel. Mae ymarferwyr yn cymhwyso arferion hylendid da, yn golchi eu dwylo'n rheolaidd ac yn ymateb i ofal personol fel newid clytiau yn briodol.

Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldeb i ddiogelu plant rhag niwed, gan gynnwys sut i ymateb i unrhyw bryderon ynghylch amddiffyn plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae ymarferwyr yn ymarfer driliau tân gyda phlant yn rheolaidd, ac o ganlyniad, maent yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os bydd argyfwng. Caiff presenoldeb plant ac ymarferwyr ei gofnodi'n briodol, ac mae ymarferwyr yn goruchwylio plant yn dda, ar y cyfan.

Mae ymarferwyr yn garedig, yn ofalgar ac yn anogol. Maent yn cyfathrebu â phlant mewn modd gwresog a chyfeillgar ac yn creu awyrgylch hwyliog a bywiog. Mae llawer o ymarferwyr yn fodelau rôl cadarnhaol ar gyfer plant ac yn rhyngweithio'n dda â nhw yn ystod eu gweithgareddau a'u harferion chwarae.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol a gofalgar gyda phlant. Er enghraifft, maent yn eu hannog i ddefnyddio 'dwylo caredig' wrth ddatblygu medr cymryd tro. Mae ymarferwyr yn ymateb yn dda i ymdrechion plant i gyfathrebu ac yn defnyddio iaith arwyddion sylfaenol i gryfhau dealltwriaeth â'r plant hynny sy'n ddieiriau. Mae ymarferwyr yn ymatebol, maent yn gwrando'n dda ac yn sgwrsio a chwerthin gyda phlant wrth iddynt chwarae. Fodd bynnag, ar adegau, mae lefel y sŵn o fewn y lleoliad yn tarfu ar ffocws a sylw plant, ac o ganlyniad, maent yn colli diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu.

Mae ymarferwyr wedi ymrwymo i ddarparu ystod addas o weithgareddau chwarae a dysgu. Maent yn cynorthwyo plant yn dda yn eu chwarae ac yn chwilio am gyfleoedd buddiol i ymestyn dysgu'r plant. Mae gan y lleoliad weithdrefnau effeithiol ar waith i gynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cwblhau cynlluniau chwarae gyda thargedau priodol i hyrwyddo dysgu a datblygiad plant. Maent yn rhannu adolygiadau a chamau nesaf gyda rhieni a gofalwyr yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn dda am gynnydd eu plentyn. Maent yn olrhain cynnydd plant yn briodol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r camau datblygiadol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Digonol**

Mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut mae plant yn dysgu trwy chwarae ac archwilio. Maent yn cynllunio gweithgareddau ysgogol sy'n cofnodi diddordebau plant yn briodol ac yn sicrhau bod adnoddau'n hyrwyddo chwilfrydedd naturiol plant yn dda. Er enghraifft, maent yn darparu llysiau a chyllyll go iawn yn y gegin chwarae rôl i blant wneud prydau bwyd.

Mae ymarferwyr yn datblygu perthnasoedd cyfeillgar a gofalgar â phlant ac yn eu hannog i archwilio ardaloedd y ddarpariaeth yn briodol. Maent yn defnyddio cwestiynau'n effeithiol i ymestyn meddwl plant ac yn eu hannog i ymchwilio sut mae pethau'n gweithio yn eu chwarae. Er enghraifft, maent yn eu cynorthwyo i ddod o hyd i'r offeryn mwyaf priodol i dorri llysiau wrth chwarae yn yr ardal chwarae rôl. Fodd bynnag, oherwydd y drefn ddyddiol o fewn y lleoliad, mae cyfleoedd cyfyngedig i blant ymgymryd â chyfnodau hir o chwarae di-dor. O ganlyniad, mae cyfleoedd annigonol i blant ymgolli'n llwyr mewn gweithgareddau, lle gallant ddilyn eu cyfareddion a'u syniadau chwarae ar eu cyflymdra'u hunain.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddatblygu medrau llythrennedd a chyfathrebu plant. Maent yn annog plant i sgwrsio â'i gilydd a hyrwyddo ffyrdd priodol iddynt fynegi eu hanghenion. Maent yn darparu cyfleoedd addas i blant drin a thrafod llyfrau yn annibynnol, ac yn mwynhau pan fydd rhywun yn darllen storïau iddynt. Yn ychwanegol, ceir cyfleoedd priodol i blant archwilio creu marciau â gwahanol offer, fel brwshys paent, pensiliau, blawd a mwd.

Mae ymarferwyr yn modelu'r Gymraeg yn dda trwy gydol y sesiwn. Maent yn defnyddio cyfarchion, cyfarwyddiadau a chwestiynau syml, fel p'un a ydynt eisiau llaeth neu ddŵr i'w yfed amser byrbryd. Maent yn annog plant i ymuno â chaneuon a rhigymau Cymraeg syml yn ystod sesiynau grŵp cyfan.

Mae ymarferwyr yn darparu ychydig o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau digidol, er enghraifft wrth ddefnyddio llechen gyfrifiadurol fawr i chwarae gemau syml i gefnogi eu dysgu. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae adnoddau annigonol i hyrwyddo datblygiad medrau digidol plant. Ceir gweithgareddau ac adnoddau buddiol i blant ddatblygu eu medrau mathemategol cynnar yn ardaloedd y ddarpariaeth o fewn y lleoliad. Yma, mae plant yn archwilio cysyniadau fel pwyso gan ddefnyddio clorian i ddod o hyd i ddarnau o bren trwm ac ysgafn, ac yn defnyddio deunyddiau naturiol i gyfrif.

Mae ymarferwyr yn cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol plant yn dda. Maent yn darparu amrywiaeth addas o adnoddau diwylliannol, fel doliau, gwisgoedd a llyfrau. Mae'r lleoliad yn dathlu gwyliau o amrywiaeth o ddiwylliannau a chredoau. Mae'r profiadau hyn yn cefnogi dealltwriaeth plant o fywydau a chredoau pobl a allai fod yn wahanol i'w rhai eu hunain.

Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau sy'n hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol Cymru yn briodol, er enghraifft trwy ddathlu digwyddiadau fel Dydd Gŵyl Dewi a choginio a samplu bwydydd fel selsig Morgannwg. Mae'r lleoliad yn defnyddio adnoddau fel ffotograffau o dirnodau Cymru i gyfoethogi'r amgylchedd, a chefnogi ymdeimlad plant o berthyn.

Mae ymarferwyr yn dechrau datblygu ffyrdd effeithiol o wneud arsylwadau rheolaidd a defnyddiol o chwarae plant. Maent yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i werthuso pa mor dda y mae plant yn dod ymlaen yn eu dysgu a'u datblygiad ar draws y llwybrau datblygiadol. Mae hyn yn eu helpu i nodi diddordebau plant a'r camau nesaf mewn dysgu yn briodol. Mae ymarferwyr yn rhannu'r wybodaeth hon gyda rhieni a gofalwyr trwy adroddiadau ysgrifenedig rheolaidd a diweddariadau dyddiol defnyddiol. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cael gwybod yn gyson am gynnydd eu plentyn.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel a saff. Mae systemau diogelwch effeithiol ar waith, gan gynnwys asesiadau risg ysgrifenedig a gwiriadau dyddiol trylwyr, sy'n lleihau neu'n dileu peryglon posibl. Ceir system addas i reoli mynediad i'r lleoliad ac maent yn cofnodi manylion ymwelwyr yn gyson. Mae'r lleoliad yn lân ac yn cael ei gynnal a chadw'n dda ac, ac mae amserlenni glanhau effeithiol ar waith.

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd croesawgar a deniadol ar gyfer plant, sydd wedi'i addurno mewn arddull niwtral a lleddfol. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd addas i blant fod yn egnïol ac yn annibynnol a bod gofod i hwyluso chwarae a dysgu'r plant. Mae'r ystafell wedi'i threfnu'n effeithiol ac yn cynnwys adnoddau addas gydag ardaloedd dynodedig i blant ymgymryd â chwarae dychmygus a lleoedd y gallant encilio iddynt lle gallant ymlacio a gorffwys. Mae'r amgylchedd wedi'i addurno ag arddangosfeydd o waith creadigol plant a ffotograffau ohonynt yn ymgymryd â gweithgareddau a thripiau amrywiol. Mae hyn yn helpu rhoi ymdeimlad o berthyn i blant a theimlad o falchder yn eu gwaith a'r hyn y maent wedi'i gyflawni.

Mae arweinwyr yn darparu ardal ddynodedig yn yr awyr agored ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r man yn gywasgedig ond wedi'i gynllunio'n dda ac yn rhoi cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu eu medrau corfforol a chymdeithasol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog chwilfrydedd plant ac yn ymestyn eu hymglymiad â llyfrau, storïau a rhigymau yn y rhandir a'r ardal lyfrau newydd y tu allan. Mae ymarferwyr yn arddangos gwaith crefft, ffotograffau teuluol a phosteri addysgol plant ar draws y lleoliad. Mae hyn yn helpu creu amgylchedd ysgogol ac yn rhoi ymdeimlad gwerthfawr o berthyn i'r plant.

Mae gan y lleoliad ystod eang o adnoddau o ansawdd da sy'n addas ar gyfer oedrannau a chyfnodau datblygu plant. Mae ymarferwyr yn ymestyn ardaloedd dysgu dan do yn dda. Er enghraifft, maent yn darparu offer cegin go iawn, fel sosbenni ac offer yn y gornel gartref. Maent yn darparu deunyddiau naturiol i gefnogi dysgu'r plant yn effeithiol. Mae toiledau'n addas i blant, a gellir cael mynediad atynt yn hawdd o'r brif ystafell. Mae'r dodrefn ar lefel sy'n briodol addas, sy'n galluogi plant i'w defnyddio a chael mynediad atynt yn annibynnol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da**

Mae arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad yn seiliedig ar sicrhau bod plant yn dysgu ac yn datblygu trwy ddilyn eu diddordebau mewn amgylchedd diogel ac ysgogol. Maent yn rhannu'r weledigaeth hon ag ymarferwyr, rhieni a gofalwyr yn llwyddiannus. Mae arweinwyr wedi datblygu ystod effeithiol o bolisïau a gweithdrefnau, sy'n cael eu rhannu â rhieni a gofalwyr yn dda. Ceir datganiad diben cynhwysfawr sy'n rhoi darlun cywir o'r lleoliad, gan alluogi rhieni i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch addasrwydd y lleoliad ar gyfer eu plentyn.

Mae arweinwyr yn sefydlu tîm newydd o ymarferwyr ac yn eu cynorthwyo i ddatblygu systemau gwaith tîm a chyfathrebu priodol i'w cynorthwyo yn eu gwaith. I gyflawni hyn, ceir cyfarfodydd tîm rheolaidd gyda chyfleoedd i'r holl ymarferwyr fyfyrio ar eu harfer. Mae arweinwyr wedi datblygu prosesau recriwtio ac ymsefydlu effeithiol, ac mae digon o ymarferwyr sy'n meddu ar gymwysterau a phrofiad priodol yn y lleoliad. Mae arweinwyr yn cynnal arfarniadau staff bob blwyddyn, ac mae'r rhain yn cynorthwyo ymarferwyr i fyfyrio ar feysydd i'w gwella o fewn eu harfer eu hunain.

Ceir cyfleoedd dysgu proffesiynol defnyddiol i ymarferwyr eu cynorthwyo yn eu rolau, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â'r trefniadau cwricwlwm ac asesu ar gyfer lleoliadau nas cynhelir, a sut i ddeall ymddygiad a chyfathrebu dieiriau plant. Mae'r cyfleoedd buddiol hyn yn galluogi staff i ddatblygu eu gwybodaeth a gwella'u harfer.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd gwerthchweil o grantiau i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Er enghraifft, ymwelon nhw ag amgueddfa i hyrwyddo dealltwriaeth plant o ddiwylliant Cymru.

Mae arweinwyr yn ymgynghori ag ystod o randdeiliaid i werthuso gwaith y lleoliad i amlinellu cryfderau a meysydd i'w datblygu yn rheolaidd. Er enghraifft, mae bwrdd i ymarferwyr gofnodi beth sy'n gweithio'n dda a beth mae angen ei wella. Maent yn casglu barn rhieni a gofalwyr trwy holiaduron blynyddol ac yn gweithredu ar eu hawgrymiadau yn effeithiol. Trwy eu prosesau hunanwerthuso, mae arweinwyr yn nodi cryfderau'r lleoliad yn gywir. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn defnyddio'r prosesau hyn yn ddigon trylwyr i nodi a blaenoriaethu meysydd i'w gwella. Er enghraifft, sut i ddatblygu medrau plant yn effeithiol trwy ansawdd y ddarpariaeth a'r strwythurau a'r arferion dyddiol o fewn y lleoliad. O ganlyniad, nid yw arweinwyr bob tro'n mynd i'r afael â meysydd allweddol i'w gwella yn ddigon da.

Mae ymarferwyr yn meithrin perthnasoedd gwerthfawr â rhieni a gofalwyr. Maent yn rhoi pecynnau croeso addysgiadol a diweddariadau dyddiol iddynt ar beth mae eu plant yn ei wneud ac yn ei ddysgu trwy gyfryngau cymdeithasol a chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Maent yn darparu gweithgareddau gwerthfawr ar gyfer rhieni y gallant eu gwneud gyda'u plant gartref i'w cynorthwyo yn eu dysgu. Yn ychwanegol, maent yn eu gwahodd i sesiynau aros a chwarae rheolaidd lle gallant weld sut mae eu plant yn chwarae ac yn dysgu pan fyddant yn y lleoliad.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gyngor ac arweiniad gan amrywiaeth o bartneriaid, fel athro ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae hyn wedi arwain at wneud newidiadau cadarnhaol i drefniadau cynllunio ac asesu ar gyfer mesur cynnydd plant, fel eu bod yn cyd-fynd ag egwyddorion y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau nas cynhelir.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau buddiol â'r gymuned leol, er enghraifft trwy ymweliadau gan yr heddlu a'r gwasanaethau tân lleol a'r hebryngwr croesfannau ysgol, lle maent yn addysgu plant am sut i fod yn ddiogel. Mae ymarferwyr yn helpu plant i ddatblygu ymdeimlad cryf o berthyn trwy ymweliadau â siopau lleol, lle maent yn prynu cynnyrch i goginio yn ôl yn y lleoliad. Yn ychwanegol, mae tripiau i leoedd fel Amgueddfa Werin Sain Ffagan yn helpu plant i ddysgu am dreftadaeth Cymru.

Mae'r lleoliad yn sicrhau bod trefniadau pontio effeithiol i blant symud ymlaen i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/05/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |
| 29 | The Registered Person (RP) must ensure staff who are looking after children receive regular supervisions and annual appraisals. | Cyflawnwyd |
| 30 | The Registered Person must maintain a daily record of children and the staff caring for them. | Cyflawnwyd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 24 Mai 2024